CYSUR MEWN CASGLU

#CysurMewnCasglu

Glan y Môr

Llun o gragen fylchog dŵr hallt 'striped venus', sy'n gallu byw hyd at 10 neu 11 oed. Mae'r gragen fylchog hon yn cael ei bwyta.

Cwestiynau:

Am beth mae'r gragen hon yn gwneud i chi feddwl?

Ydych chi'n hoffi bwyd môr, fel cocos, cregyn gleision, a bara lawr?

Llun o'r twyni tywod yn Ynyslas, Ceredigion. Mae'r twyni'n dal i dyfu bob blwyddyn ac yn gartref i nifer o blanhigion a phryfed prin.

Cwestiynau:

Oes ganddoch chi hoff draeth?

Ydych chi'n hoffi traeth tywod neu draeth creigiog?

Awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau / elfennau synhwyrus:

Dewch â detholiad o gregyn ac esgyrn ystifflog i'r sesiwn. Mae esgyrn Ystifflog ar gael mewn siopau anifeiliaid anwes.

Allwch chi ailadrodd 'She sells seashells on the seashore' yn gyflym heb faglu?

national museum wales
amgueddfa cymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

CYSUR MEWN CASGLU

#CysurMewnCasglu

Mae tua 450 rhywogaeth gwymon yng Nghymru.

Daeth rhai yma yn artiffisial, wedi eu cludo ar longau, mewn dŵr balast, neu ar ddamwain wrth ffermio cregynbysgod.

Cwestiynau:

Ydych chi wedi gweld rhai o'r rhein o'r blaen?

Ydych chi'n gwybod beth ydyn nhw? O ble mae nhw'n dod?

Gwymon codog mân:
Gallwch chi bopio'r codau aer ar y gwymon yma.
Ydych chi byth wedi defnyddio gwymon ar gyfer rhywbeth?

Oedech chi'n mwynhau nofio yn y môr yn blentyn?
Ydych chi'n cofio teimlo gwymon ar eich coesau?

Cafodd y gwrthrychau yma eu golchi i'r lan a'u canfod ar y traethlin.

Cwestiynau:

Beth yw'r rhain?

national museum wales
amgueddfa cymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

amgueddfa.cymru/casgliadau/arlein